Swansea University
Prifysgol Abertawe

Health, Safety & Resilience
Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch

# Polisi Gwydnwch:

# Rhan 1 - Datganiad o Fwriad

# HSR-20100-01

## Cynnwys

Rheoli'r Ddogfen .......... 3
Cofnod Diwygio .......... 3
1. Cwmpas y Polisi .......... 4
2. Datganiad o Fwriad .......... 4

## Rheoli'r Ddogfen

| | |
|---|---|
| Enw'r Ddogfen | Polisi Gwydnwch: Rhan 1 Datganiad o Fwriad |
| Rhif Cyfeirnod y Ddogfen | HSR-20100-01 |
| Fersiwn | 2.0 |
| Dyddiad cyhoeddi | Mai 2026 |
| Ysgrifennwyd gan | Andy Walters |
| Addaswyd gan | Louise Nowell a Sophie Phelps |
| Adolygwyd gan | Y Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch |
| Cyfeiriad e-bost cyswllt | healthandsafety@abertawe.ac.uk |

## Cofnod Diwygio

| **Fersiwn** | **Dyddiad** | **Diwygiad(au)** |
|---|---|---|
| **0.1** | Hydref 2022 | Drafft terfynol. Cyflwyno i'r Pwyllgor Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch er mwyn cael sylwadau a chymeradwyaeth |
| **1** | Tachwedd 2022 | Rhifyn 1 |
| **2** | Gorffennaf 2025 | Rhifyn 2 Mân newidiadau, a'r geiriad wedi'i newid o 'argyfyngau mawr' i 'ddigwyddiadau mawr', yn unol â'r Cynlluniau Rheoli Digwyddiadau (IMP). Rhagor o wybodaeth wedi'i hychwanegu mewn perthynas â'r lefel reoli ac Egwyddorion Rhyngweithredu'r Cyd-wasanaethau Brys (JESIP). |
| | Mai 2026 | Llofnod a Rhif Cyfres |

## 1. Cwmpas y Polisi

Mae'r Polisi Gwydnwch hwn yn rhan o'r Polisi Iechyd, Diogelwch a Gwydnwch (HS&R), y system rheoli HS&R, a threfniadau cysylltiol.

## 2. Datganiad o Fwriad

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddarparu'r adnoddau sy'n ofynnol er mwyn sicrhau ei bod yn barod ar gyfer digwyddiad mawr ac yn medru adfer ar ôl digwyddiad o'r fath.

Er bod y tîm HS&R yn cynnig cymorth gyda materion parhad busnes a gwydnwch, cyfrifoldeb y Gyfarwyddiaeth Gwasanaethau Digidol yw rheoli digwyddiadau seiber.

Bydd y Brifysgol yn sicrhau bod trefniadau rheoli digwyddiadau cadarn ar waith ar gyfer holl weithgareddau'r Brifysgol, yn y DU neu dramor. Er mwyn sicrhau bod cynllunio'r Brifysgol yn cydymffurfio â'r gwasanaethau brys, trefniadau rheoli argyfwng yr Awdurdod Lleol a phartneriaid gwydnwch eraill, bydd y Brifysgol yn gweithredu'r un lefel reoli ac yn mabwysiadu'r Egwyddorion Rhyngweithredu'r Cyd-wasanaethau Brys (JESIP). Bydd y Brifysgol yn dilyn fframwaith Rhaglen Rhyngweithredu'r Cyd-wasanaethau Brys i nodi, cynllunio, darparu a gweithredu mesurau ataliol a chynlluniau wrth gefn drwy gyfrwng asesiadau risg rheolaidd. Yn benodol, bydd y Brifysgol yn:

- lleihau, yn lliniaru, neu'n rheoli effaith digwyddiad mawr ar y Brifysgol a chymunedau agos.
- Ymateb â'r adnoddau priodol i reoli'r digwyddiad, gan gynnwys hwyluso cyfathrebu, penderfynu a defnyddio adnoddau'n effeithiol yn ystod y cyfnodau ymateb ac adfer.
- Sicrhau y darperir cymorth i'r gwasanaethau brys a phartneriaid eraill sydd wedi'u categoreiddio yn Neddf Argyfyngau Sifil Posibl 2024, gan eu galluogi i weithredu yn unol ag egwyddorion JESIP a bodloni rhwymedigaethau statudol perthnasol.
- Darparu adnoddau i alluogi'r Brifysgol i barhau i weithredu, mewn modd diogel.
- Rhannu gwybodaeth briodol â rhanddeiliaid mewnol ac allanol.
- Lleihau effaith ariannol yr argyfwng, i'r graddau y mae'n rhesymol ymarferol.

Bydd y Brifysgol yn darparu gwybodaeth, cyfarwyddyd, hyfforddiant a goruchwyliaeth i fyfyrwyr a staff yn ôl yr angen, fel eu bod yn deall eu rolau ym mhrosesau gwydnwch y Brifysgol ac yn medru cyfrannu at barodrwydd sefydliadol mewn modd cadarnhaol.

Bydd y Brifysgol yn paratoi cynlluniau ymateb i ddigwyddiad pan fydd meysydd risg uchel ac effaith uchel yn cael eu nodi. Bydd y cynlluniau hynny yn:

- Cael eu datblygu mewn ymgynghoriad â phartneriaid mewnol ac allanol.
- Cynnwys yr wybodaeth ofynnol er mwyn hwyluso ymateb ac adferiad effeithiol.
- Cael eu cynnal a'u diweddaru i adlewyrchu newidiadau mewn prosesau, personél neu isadeiledd.
- Cael eu hadolygu'n flynyddol a'u profi drwy weithgareddau llawn neu weithgareddau rhannol ar ôl yr adolygiad.

Mae'r datganiad hwn wedi cael ei gymeradwyo a'i fabwysiadu ar ran y Brifysgol gan

**Llofnod (Cadeirydd y Cyngor):** **Dyddiad:** 22/05/2026

**Llofnod (Yr Is-ganghellor):** **Dyddiad:** 10/06/2026

**Dyddiad Adolygu:**(dwy flynedd ar ôl llofnodi, neu os bydd newid sylweddol).